Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 401

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Parhau â'r Cynllun Peilot Paladin**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn unol â chofnod penderfyniad DLl334, cymeradwyodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyfarniad cyllid o Gronfa'r Comisiynydd ar gyfer cynllun peilot 12 mis o weithiwr achos eiriolaeth stelcio annibynnol penodol drwy wasanaeth Paladin.

Mae'r Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol yn gweithio'n uniongyrchol â dioddefwyr, gan eu cefnogi drwy eu trawma ac unrhyw weithdrefnau cyfreithiol dilynol.

Mae Paladin hefyd wedi darparu hyfforddiant Stelcio penodol i'r heddlu a gwasanaethau cam-drin domestig a rhywiol lleol o fewn y rhanbarth. Byddant yn parhau i gynnig y ddarpariaeth hon yn 2025/26.

Oherwydd llwyddiant y gweithgarwch hwn, gofynnwyd am gyllid i estyn y cynllun peilot am flwyddyn arall, gan gychwyn ym mis Medi 2025. Mae'r swm y gofynnir amdano ychydig yn is na'r cais ar gyfer 2024/25: £38,505.

Ystyrir archwilio i ymarfer tender agored ar ddiwedd y cyfnod ariannu os yw'r cynllun peilot hwn yn arddangos sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer darpariaeth gwasanaeth parhaus.

Mae gweithgarwch y prosiect hwn yn cyd-fynd ag un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef cefnogi dioddefwyr ac atal niwed.

**Argymhelliad:**
Darparu cyllid o £38,505 o'r gyllideb Cronfa Arloesedd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/07/2025**